ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

# RHEOLIADAU A GWEITHDREFN AMGYLCHIADAU ESGUSODOL PRIFYSGOL DE CYMRU 2023/2024

# I'W DEFNYDDIO YN CBCDC

| **Teitl**: Rheoliadau Amgylchiadau Esgusodol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad Cyhoeddi** | **Disgrifiad o Ddiwygiad** | **Awdur** | **Cymeradwywyd gan a Dyddiad** | **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf** |
| Medi 2023 | Fersiwn CBCDC o fersiwn Prifysgol De Cymru | CBCDC | Bwrdd Academaidd Mehefin 2023 | Mehefin 2024 |

# RHAN A: RHEOLIADAU

## ADRAN A1: RHAGYMADRODD

1.1 Mae Rheoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol Prifysgol De Cymru yn berthnasol i:

- Fyfyrwyr y mae eu hastudiaeth yn dod o dan y Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir, gan gynnwys ymgeiswyr Doethuriaeth Broffesiynol sy'n cwblhau'r elfen a addysgir o'u rhaglen ymchwil ôl-raddedig.
- Myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC[1]).
- Myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol gyda sefydliadau partner y Brifysgol.
- Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith neu'n cymryd rhan mewn dysgu seiliedig ar waith.

1.2 Mae diffiniad y Brifysgol a CBCDC o amgylchiadau esgusodol fel a ganlyn:

*Amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld, na ellir eu hosgoi a thu allan i reolaeth y myfyriwr ac sydd wedi eu hatal, neu a fydd yn eu hatal, rhag perfformio mewn asesiad ar y lefel sy'n ofynnol ganddo/ganddi.*

## ADRAN A2: EGWYDDORION CYFFREDINOL

**Egwyddorion a nodau allweddol:**

2.1 Egwyddor allweddol y rheoliadau a'r weithdrefn yw sicrhau cydraddoldeb i bob myfyriwr mewn perthynas â'r asesiadau y mae'n ofynnol iddo/iddi eu cyflawni yn ystod eu cwrs. Er mwyn gweithredu'r egwyddor hon, **mae gan fyfyrwyr gyfrifoldeb i hysbysu CBCDC am unrhyw amgylchiadau a allai effeithio ar eu hasesiadau cyn gynted ag y byddant yn codi, gan ddefnyddio'r Ffurflen Hawlio Amgylchiadau Esgusodol**.

2.2 Nod CBCDC yw sicrhau nad yw myfyriwr, sydd ag amgylchiadau esgusodol profedig fel y diffinnir uchod, o dan anfantais annheg o ganlyniad i hynny; ar yr un pryd, ni fydd myfyrwyr ag amgylchiadau esgusodol yn cael mantais anghymesur dros fyfyrwyr eraill.

2.3 Bydd ceisiadau cymwys yn cael eu hystyried ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth a ddarperir a bydd y penderfyniad yn cael ei seilio ar p'un a effeithiodd yr amgylchiadau ar allu'r myfyriwr i astudio.[2]

2.4 Efallai na fydd rhesymau personol, teuluol neu ddiwylliannol sensitif yn cael eu derbyn fel rheswm da pam na chyflwynodd myfyriwr hawliad o fewn y terfynau amser penodedig.

2.5 Er nad oes cyfyngiad ar faint o weithiau y gall myfyriwr gyflwyno hawliad neu hunan-ardystio, fe fydd hyn yn cael ei fonitro a gellir codi unrhyw bryderon drwy weithdrefnau eraill, gan gynnwys Cymorth i Astudio, Ymddygiad Myfyriwr ac Addasrwydd i Ymarfer fel y bo'n briodol.

2.6 Mae'n dal yn ofynnol i fyfyrwyr fodloni canlyniadau dysgu eu cwrs a'u hasesiadau. Felly, os caiff asesiad neu arholiad ei ohirio tan ddyddiad diweddarach, gallai hyn effeithio ar eu cynnydd neu ddyddiad cwblhau cwrs.

---

[1] Mae CBCDC yn rheoli ei weithdrefnau amgylchiadau esgusodol ei hun ac yn gweithredu ei baneli ei hun

[2] Bydd ystyried a effeithiodd yr amgylchiadau ar allu'r myfyriwr i astudio yn unol â'r cydbwysedd tebygolrwydd. Mae hyn yn golygu bod yr amgylchiadau yn fwy tebygol o fod wedi effeithio ar allu myfyriwr i astudio na pheidio.

2.7 Er y gall estyniadau i derfynau amser fod yn ddefnyddiol yn y tymor byr, gall estyniadau dro ar ôl tro greu ôl-groniad gwaith, a all gael effaith negyddol ar gynnydd. Lle bo modd, anogir myfyrwyr felly i anelu at gwblhau eu gwaith o fewn y terfynau amser arferol.

**Camau**

2.8 Mae gan CBCDC dri cham i'w Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol:

- ***Hawliadau syml*** - bydd enwebai o'r adran Gweinyddiaeth Academaidd yn adolygu'r hawliad ac yn gwneud penderfyniad yn unol â chanllawiau cyhoeddedig.

- ***Hawliadau cymhleth a hawliadau am gyflwr hirsefydlog sy'n gwaethygu weithiau*** - bydd hawliadau'n cael eu cyfeirio at y Panel Amgylchiadau Esgusodol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd yr hawliad, lle mae'r hawliad yn gymhleth neu os yw'r hawliad ar gyfer cyflwr hirsefydlog sy'n gwaethygu weithiau. Os yw hawliad am gyflwr hirsefydlog sy'n gwaethygu weithiau, gall CBCDC, yn ôl ei ddisgresiwn, ofyn am gymorth gweithiwr proffesiynol priodol (naill ai'n fewnol neu'n allanol) a fydd yn cynghori'r Panel.

- ***Adolygiad*** - mae gan fyfyrwyr yr hawl i gyflwyno cais am adolygiad i ganlyniad hawliad amgylchiadau esgusodol neu doriad i astudiaethau ar yr amod eu bod yn bodloni seiliau penodol.

2.9 Rhaid i bob hawliad am amgylchiadau esgusodol, ac eithrio pan fo myfyriwr yn hunan-ardystio neu os oes gan y myfyriwr anabledd neu gyflwr hirsefydlog lle darparwyd tystiolaeth yn flaenorol, gael ei gefnogi gan dystiolaeth annibynnol. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw darparu'r dystiolaeth hon wrth gyflwyno'r hawliad. Ni fydd hawliadau nad ydynt yn darparu tystiolaeth o'r fath yn cael eu derbyn. Yr unig eithriad i hyn yw amgylchiadau esgusodol grŵp/carfan, megis larwm tân yn canu yn ystod arholiad, ac os felly bydd CBCDC yn darparu'r dystiolaeth.

**Polisi Ffit i Sefyll**

2.11 Mae CBCDC yn gweithredu Polisi Ffit i Sefyll lle mae'r holl fyfyrwyr, wrth gyflwyno gwaith neu gyflwyno eu hunain ar gyfer asesiadau[3], boed yn bersonol, ar-lein neu ar y safle, yn datgan eu bod yn ffit i sefyll yr asesiad. Pan fydd myfyriwr yn llofnodi'r slip presenoldeb, yn cyrchu'r arholiad neu asesiad ar-lein, neu'n nodi ei fod yn bresennol ar gofrestr presenoldeb, mae myfyriwr yn datgan ei fod yn ffit i sefyll.

2.12 Ni all myfyrwyr honni wedyn bod eu perfformiad yn yr asesiad hwnnw wedi'i effeithio gan amgylchiadau neu salwch a oedd yn bodoli eisoes ac eithrio lle mae amodau neu ddigwyddiadau ychwanegol yn codi, er enghraifft pan fydd myfyriwr yn mynd yn sâl yn ystod arholiad ac yn methu â pharhau i sefyll yr arholiad neu lle'r oedd nam ar eu barn, ac nad oeddent yn gallu gwneud penderfyniad rhesymegol ynglŷn â bod yn ffit i sefyll. Byddai hyn yn 'dileu'r datganiad ffit i sefyll'.

2.13 Fel arfer byddai angen tystiolaeth ar gyfer 'dileu datganiad ffit i sefyll', a rhoddir enghreifftiau o hyn yn Rhan B: Gweithdrefn.

**Toriad i Astudiaethau**

2.14 Os yw'r amgylchiadau esgusodol mor ddifrifol fel nad yw'r myfyriwr yn gallu parhau i astudio dros dro, gall y myfyriwr wneud cais am doriad i astudiaethau am gyfnod astudio llawn/gweddill y cyfnod astudio. Ni fydd myfyrwyr yn gallu dychwelyd i astudio hanner ffordd drwy gyfnod astudio a rhaid bod posibilrwydd y byddant yn gallu ailddechrau astudio ar yr un cwrs ar y dyddiad cofrestru ar gyfer y cyfnod astudio dilynol.

---

[3] Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i arholiadau, profion yn y dosbarth, cyflwyniadau, gwerthusiadau ymarfer clinigol, profion ymarferol, asesiadau gwaith cwrs a phrosiectau ond nid i asesiadau perfformiad llwyfan

**ADRAN A3: MONITRO**

3.1 Bydd sampl o bob hawliad yn cael ei adolygu gan y Cofrestrydd Academaidd bob tymor i sicrhau cysondeb ar draws CBCDC. Darperir adroddiad i’r Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr yn flynyddol. (Gweler hefyd adrannau 8.6-8.8)

# RHAN B: GWEITHDREFN

**ADRAN B1: ENGHREIFFTIAU O AMGYLCHIADAU ESGUSODOL**

1.1 Mae'r canlynol yn rhestr, nad sy'n gyflawn, o'r hyn y byddai CBCDC fel arfer yn ei ystyried yn amgylchiadau esgusodol a allai fod wedi effeithio ar eich perfformiad ac na ellid bod wedi'u cywiro cyn yr asesiadau:

- profedigaeth - marwolaeth perthynas agos/person arwyddocaol;
- salwch neu anaf tymor byr difrifol;
- cyflwr iechyd parhaus yn gwaethygu'n sylweddol;
- salwch cysylltiedig â beichiogrwydd neu enedigaeth, ond nid beichiogrwydd ei hun (gweler hefyd adran B5 5.6);
- amgylchiadau personol/teuluol andwyol sylweddol, gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu annisgwyl am aelod o'r teulu neu ddibynnydd;
- problemau ariannol sylweddol, e.e. methdaliad;
- bod yn ddioddefwr neu'n dyst i drosedd sydd wedi cael effaith sylweddol ar y myfyriwr;
- cystadlu ar lefel ryngwladol, er enghraifft mewn cystadleuaeth chwaraeon neu ddrama;
- larwm tân yn canu mewn arholiad;
- problem dechnegol sy'n atal mynediad at addysgu neu asesu ar-lein;
- pryderon diogelu, er enghraifft person o dan 18 oed neu oedolyn agored i niwed sy'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu mewn perygl o brofi hynny:
- ffactorau eithriadol eraill sydd wedi achosi straen sylweddol.

1.2 Ni fydd y Brifysgol yn derbyn unrhyw sefyllfaoedd y gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl i chi eu hosgoi neu y gellid bod wedi gwneud trefniadau ymlaen llaw i fynd i'r afael â'r materion neu wedi cymryd camau i gyfyngu ar eu heffaith fel amgylchiadau esgusodol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn na fyddai'n cael eu hystyried yn amgylchiadau esgusodol:

- amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag astudio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i
  - methiant offer gan gynnwys anawsterau gyda chyfrifiaduron/argraffu (oni bai eu bod yn atal mynediad at addysgu neu asesu ar-lein) a methu â wedi gwneud copïau wrth gefn ar gyfer gwaith a gafodd ei ddwyn neu ei lygru[4]
  - crynhoi llwyth o derfynau amser/arholiadau
  - llyfrau ar goll
  - rheoli amser gwael
  - camddarllen yr amserlen arholiadau a pheidio â bod yn ymwybodol o ddyddiadau neu amseroedd cyflwyno asesiad gwaith cwrs[5]
  - sefyll yr arholiad anghywir
  - cyflwyno'r asesiad anghywir
  - straen arferol arholiadau
- amhariadau domestig neu bersonol nad ydynt yn ddifrifol, er enghraifft: symud tŷ, newid swydd, gwyliau, priodasau, pwysau swydd arferol, trefniadau teithio aflwyddiannus (oni bai bod y rhain o ganlyniad i ddigwyddiad mawr), cysgu'n hwyr;
- materion ariannol cyffredinol;
- datganiad honedig o gyflwr meddygol heb dystiolaeth resymol i'w gefnogi;
- amgylchiadau meddygol y tu allan i'r cyfnod asesu neu'r cyfnod dysgu perthnasol;

[4] Dylai myfyrwyr ganiatáu digon o amser i gyflwyno'n electronig neu argraffu unrhyw gyflwyniadau asesu erbyn y terfynau amser gofynnol er mwyn osgoi unrhyw anawsterau.

[5] Bydd CBCDC yn darparu gwybodaeth glir am ddyddiadau ac amseroedd o'r fath, ond mae gan fyfyrwyr hefyd gyfrifoldeb unigol dros ofyn am eglurhad o'r holl derfynau amser ac arholiadau.

- unrhyw amgylchiadau y gellid eu rhagweld a/neu eu hatal;
- mân salwch neu anhwylder, megis annwyd cyffredin, oni bai bod y salwch yn glefyd heintus a allai fod yn niweidiol pe byddai'n cael ei drosglwyddo i eraill;
- datgelu amgylchiadau'n hwyr ar y sail bod myfyrwyr yn teimlo na allent neu nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus i ymddiried mewn aelod o staff am eu hamgylchiadau heb reswm da (dylai myfyrwyr gysylltu â Gweinyddiaeth Academaidd a/neu'r Gwasanaethau Myfyrwyr os oes angen cymorth arnynt i gyfleu amgylchiadau penodol a allai effeithio ar eu hasesiadau);
- gwyliau, symud tŷ neu ddigwyddiadau eraill a gynlluniwyd neu y gellid bod wedi'u disgwyl yn rhesymol;
- mân ddigwyddiadau bywyd, oni bai bod yr amgylchiadau wedi cael effaith anghymesur ar y myfyriwr, a benderfynir gan y Panel Amgylchiadau Esgusodol;
- mân darfu o ran trafnidiaeth;
- defodau crefyddol – ni fydd CBCDC yn newid terfynau amser asesu na chyfnodau arholi o amgylch gwyliau crefyddol gwahanol grefyddau myfyrwyr. Os yw dyddiad cau asesiad yn cyd-daro â gŵyl grefyddol, dylech gynllunio eich amser yn unol â hynny a chyflwyno unrhyw asesiadau cyn y dyddiad cyflwyno. Er na chaiff cyfnodau arholiadau eu symud, cynhelir cyfres o weithgareddau i gefnogi myfyrwyr, pe bai arferion crefyddol (e.e. Ramadan) yn cyd-daro â chyfnod yr arholiadau. Disgwylir i chi gymryd rhan mewn unrhyw ddefod grefyddol cyn neu ar ôl unrhyw arholiad a drefnwyd.

**ADRAN B2: CYFLWYNO HAWLIADAU AC AMSERLENNI**

2.1 Fe'ch cynghorir i geisio gwybodaeth ac arweiniad ar sut i gyflwyno hawliad gan y Weinyddiaeth Academaidd a/neu'r Gwasanaethau Myfyrwyr.

2.2 Rhaid i bob hawliad gael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen Amgylchiadau Esgusodol ar-lein, cyn, neu o fewn, pum diwrnod gwaith i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs/dyddiad yr arholiad/asesiad. Yr unig eithriad yw amgylchiadau esgusodol grŵp/carfan, megis larwm tân yn canu yn ystod arholiad, ac os felly bydd aelod o staff yn dwyn yr achos i sylw'r Weinyddiaeth Academaidd i'w ystyried.

2.3 Os ydych mor analluog fel nad ydych yn gallu llenwi a chyflwyno ffurflen amgylchiadau esgusodol ar yr adeg y mae'r amgylchiadau'n codi dylech, lle bo hynny'n rhesymol ac yn bosibl, gysylltu â'r Weinyddiaeth Academaidd i amlinellu'r amgylchiadau neu drefnu i ffrind neu berthynas wneud hynny.

2.4 Ni fydd hawliadau amgylchiadau esgusodol fel arfer yn cael eu hystyried mwy na phedair wythnos cyn dyddiad cau asesu/arholiad. Eithriadau i hyn yw pan fydd gennych dystiolaeth, ymlaen llaw, o amgylchiadau penodol a fydd yn effeithio am gyfnod penodol. Er enghraifft, derbyniad i'r ysbyty neu lle mae'r terfyn amser ar gyfer asesiad yn ymwneud â chyflwyno traethawd hir neu brosiect mawr.

2.5 Yr unig eithriad i'r amserlenni a nodir yn adran 2.2 yw gwneud cais hwyr am amgylchiadau esgusodol, lle mae gennych dystiolaeth bod yr amgylchiadau neu'r salwch wedi eich atal rhag cyflwyno'r ffurflen amgylchiadau esgusodol ar amser. Gall enghreifftiau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, fod yn yr ysbyty neu fel arall yn methu ymgysylltu â'r broses oherwydd salwch (gan gynnwys iechyd meddwl).

2.6 Mae dau fath o amgylchiadau esgusodol y gellir eu cyflwyno ar ôl y terfynau amser arferol yn 2.2. 'Amgylchiadau esgusodol hwyr' yw'r rheini a gyflwynir cyn i'ch canlyniadau gael eu hystyried gan Fwrdd Asesu, ac 'Amgylchiadau esgusodol ôl-Fwrdd' yw'r rheini a gyflwynir ar ôl i Fwrdd Asesu gyfarfod a phenderfynu ar eich canlyniadau.

2.6.1 Gellir cyflwyno hawliadau amgylchiadau esgusodol hwyr hyd at y 'dyddiau cau ar gyfer Hawliadau Hwyr' ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol, a bennir yn unol â'r byrddau asesu perthnasol ac a gyhoeddir drwy'r Weinyddiaeth Academaidd.

2.6.2 Gellir cyflwyno hawliadau amgylchiadau esgusodol ôl-Fwrdd o fewn 10 diwrnod i gyhoeddi'ch canlyniadau, lle mae gennych reswm da dros fethu â chyflwyno hawliad cyn y 'dyddiad cau ar gyfer Hawliadau Hwyr' a gyhoeddwyd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Academaidd. Os ydych wedi cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol ôl-Fwrdd, bydd y Weinyddiaeth Academaidd yn eich hysbysu o ganlyniad eich hawliad ond bydd y bwrdd asesu yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'ch statws o ganlyniad i'r hawliad, lle bo'n briodol.

2.7 Os gwneir cais yn hwyr iawn, efallai y byddwn yn gyfyngedig o ran y camau y gallwn eu cymryd. Er enghraifft, gall fod yn rhy hwyr i ohirio eich arholiadau tan y cyfnod ailsefyll a gallai hyn achosi oedi i'ch astudiaethau.

2.8 Os yw eich astudiaethau wedi cael eich terfynu ond bod gennych amgylchiadau eithriadol (e.e. problemau iechyd meddwl nad oeddent wedi'u deall yn flaenorol) nad oeddech yn gallu adrodd amdanynt am reswm da yn ystod eich astudiaethau, gallwch wneud cais a chael eich cais wedi'i ystyried o dan y polisi Terfynu Astudiaethau Myfyrwyr. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ymholiadau a Mynediadau.

**ADRAN B3: CYFLWYNO TYSTIOLAETH**

3.1 Rhaid cyflwyno tystiolaeth i gefnogi hawliad gyda'r ffurflen neu ni fydd yn bosibl i'r hawliad gael ei ystyried (oni bai eich bod yn hunan-ardystio, neu os oes gennych anabledd neu gyflwr hirsefydlog a'ch bod wedi darparu tystiolaeth yn flaenorol (gweler hefyd B5)). Mae CBCDC yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth amgen neu ychwanegol cyn gwneud penderfyniad. Ni fydd hawliadau nad ydynt yn darparu tystiolaeth yn cael eu derbyn fel arfer.

3.2 Dylai'r dystiolaeth a ddarperir fod yn gopïau o'r dogfennau gwreiddiol a rhaid iddi gael ei hysgrifennu a'i llofnodi/stampio'n swyddogol, lle bo'n briodol, gan drydydd parti addas ar bapur pennawd. Ni fydd dogfennau a ddarperir neu a lofnodwyd gan aelodau teulu, ffrindiau neu gyd-fyfyrwyr yn cael eu derbyn fel arfer ond penderfynir ar hyn fesul achos yn unol â ffeithiau'r hawliad.

3.3 Lle nad yw'r dystiolaeth wreiddiol yn Gymraeg na Saesneg, efallai y gofynnir i chi drefnu i'w chyfieithu i Saesneg neu Gymraeg gyda dilysiad yn cael ei ddarparu yn dangos gan bwy a ble y gwnaed y cyfieithiad. Lle bo modd, bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddefnyddio gwasanaethau sydd ar gael yn fewnol i wirio dilysrwydd dogfennau os na chânt eu darparu yn Gymraeg neu Saesneg.

3.4 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn dystiolaeth dderbyniol (gweler hefyd Atodiad 1):

- Mewn achos salwch difrifol person arwyddocaol, datganiad gan weithiwr iechyd proffesiynol. Ar gyfer profedigaeth, tystysgrif marwolaeth, ysgrif goffa, trefn gwasanaeth angladd. Ar gyfer cyflwr meddygol, tystysgrif feddygol neu adroddiad gan weithiwr proffesiynol priodol sy'n gorfod bod yn benodol a chynnwys dyddiad sy'n berthnasol i'r hawliad. Mae'n rhaid eich bod wedi ymweld â gweithiwr proffesiynol meddygol/priodol yn ystod unrhyw salwch a rhaid i dystysgrifau a roddir gynnwys cadarnhad o ddyddiad yr ymweliad. Ni dderbynnir tystysgrif feddygol neu adroddiad gan weithiwr proffesiynol priodol ôl-weithredol neu wedi'i hôl-ddyddio. Mewn perthynas â chyflyrau meddygol, rhaid cael digon o dystiolaeth o effaith y salwch/sefyllfa ar yr asesiad y mae'r hawliad amgylchiadau esgusodol yn ymwneud ag ef.
- Tystiolaeth gan wasanaethau cymorth allanol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wasanaethau trais domestig, gwasanaethau seicolegol neu ffynonellau cymorth mewnol fel cynghorwyr iechyd meddwl/cynghorwyr anabledd.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, lle na ellir cael tystiolaeth, gellir ystyried derbyn datganiad gennych yn manylu ar effaith yr amgylchiadau.

3.5 Mae gan y Brifysgol yr hawl i wirio neu ddilysu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir. Os byddwch yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n troi allan i fod yn ffug, bydd ymchwiliad o dan y Rheoliadau a'r Weithdrefn

Ymddygiad Myfyrwyr yn cychwyn.

3.6 Wrth gyflwyno hawliad a gefnogir gan dystiolaeth, gallwch ofyn am estyniad o hyd at 20 diwrnod gwaith ar y mwyaf neu ohirio tan y pwynt asesu nesaf heb gosb bellach[6].

**ADRAN B4: HUNAN-ARDYSTIO**

4.1 Mae hunan-ardystio ar gyfer salwch tymor byr nad oes angen ymyrraeth feddygol ar ei gyfer ac sy'n eithrio mân salwch neu anhwylderau, megis annwyd cyffredin neu glefyd y gwair, oni bai bod y symptomau'n arbennig o ddifrifol ac a fydd yn cael effaith sylweddol ar eich arholiadau/asesiadau, neu oni bai bod y salwch yn glefyd heintus a allai fod yn niweidiol pe bai'n cael ei drosglwyddo i eraill.

4.2 Gallwch hunan-ardystio am gyfnod o saith diwrnod calendr neu ofyn am ohiriad tan y pwynt asesu nesaf heb gosb am asesiadau ar y diwrnod.

4.3 Rhaid bod y salwch wedi digwydd o fewn saith diwrnod cyn dyddiad cau/amser yr asesiad.

4.4 Ni all myfyrwyr hunan-ardystio'n ôl-weithredol, ar gyfer asesiad a gyflwynwyd eisoes neu ar ôl iddynt gyflwyno eu hunain ar gyfer arholiad/asesiad, neu ar gyfer unrhyw hawliadau a gyflwynir yn hwyr.

4.5 Gall y Weinyddiaeth Academaidd gysylltu â myfyrwyr pan fyddant yn cyflwyno mwy na dau hawliad hunan-ardystio.

4.6 Ni allwch hunan-ardystio yn ôl-weithredol ar ôl i chi gyflwyno gwaith neu gyflwyno eich hun ar gyfer arholiad/asesiad.

**ADRAN B5: HAWLIADAU AR GYFER MYFYRWYR SYDD AG ANABLEDD / CYFLWR HIRSEFYDLOG**

**Hawliadau ar gyfer myfyrwyr ag anabledd/cyflwr hirsefydlog**

5.1 Mae CBCDC yn cydnabod bod gan rai myfyrwyr anableddau a/neu gyflyrau hirsefydlog; er enghraifft, rhai cyflyrau iechyd meddwl, ffibromyalgia, a chlefyd Crohn, a all effeithio ar allu myfyriwr i reoli ei astudiaethau'n effeithiol a chyflwyno gwaith academaidd sy'n dangos ei ddysgu o fewn yr amserlenni safonol.

**Myfyrwyr sydd â Chynllun Cymorth Unigol (ISP)***

5.2 Os oes gennych bryderon ynghylch terfynau amser asesu unigol, nad yw'r addasiad rhagweledol uchod yn mynd i'r afael â hwy, dylech drafod eich amgylchiadau gyda'r Gwasanaethau Myfyrwyr. Os yw'n briodol, bydd "hyblygrwydd ynghylch terfynau amser" yn cael ei ychwanegu fel addasiad rhesymol i'ch Cynllun Cymorth Unigol (ISP).

5.3 Yna byddwch yn gallu gwneud cais am estyniad o hyd at 20 diwrnod gwaith ar y mwyaf neu ohirio tan y pwynt asesu nesaf heb gosb bellach am asesiadau yr effeithiwyd arnynt oherwydd eich anabledd/cyflwr hirsefydlog.[7] Bydd angen i chi lenwi ffurflen amgylchiadau esgusodol a nodi bod eich ISP yn cefnogi eich cais. Ni fydd angen tystiolaeth ychwanegol.

[6] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

[7] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

**Myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau hirsefydlog nad oes ganddynt Gynllun Cymorth Unigol (ISP)[8]**

5.5 Gall myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau hirdymor nad oes ganddynt Gynllun Cymorth Unigol (ISP) yn ei le wneud cais am amgylchiadau esgusodol a dim ond gyda'u hawliad cyntaf y bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth ategol mewn perthynas â'u hanableddau a/neu amodau hirsefydlog.

5.6 Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle gallai'r Weithdrefn hon fod yn briodol os oes gennych gyflwr sy'n gyfyngedig o ran amser, er enghraifft cymhlethdodau cysylltiedig â beichiogrwydd (gweler hefyd adran B1 1.1).

5.7 Dylech nodi ar y ffurflen amgylchiadau esgusodol eich bod yn fyfyriwr anabl/bod gennych gyflwr hirsefydlog ac nad oes gennych ISP a'ch bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi'ch hawliad.

5.8 Rhaid i chi gynnwys tystiolaeth ategol briodol - **gweler adran B3**.

5.9 Gallwch ofyn am estyniad o hyd at 20 diwrnod gwaith neu ohirio tan y pwynt asesu nesaf heb gosb bellach am asesiadau yr effeithiwyd arnynt oherwydd eich anabledd/cyflwr hirsefydlog.[9]

5.10 Bydd eich cais yn cael ei ystyried gan Banel Amgylchiadau Esgusodol ac, os caiff ei gymeradwyo, gall fod am un flwyddyn academaidd neu hyd nes y byddwch wedi cwblhau eich cwrs.

5.11 Os caiff eich hawliad ei gymeradwyo, ni fydd angen tystiolaeth ategol ar gyfer unrhyw hawliadau dilynol oherwydd yr un anabledd/cyflwr hirsefydlog a dylech nodi ar y ffurflen amgylchiadau esgusodol eich bod wedi darparu tystiolaeth sy'n cefnogi'ch hawliad yn flaenorol.

## ADRAN B6: AMGYLCHIADAU SY'N EFFEITHIO AR NIFER FAWR O FYFYRWYR

6.1 Mewn achos digwyddiad mawr/mater sy'n effeithio ar nifer fawr o fyfyrwyr, e.e. tywydd garw, argyfyngau iechyd y cyhoedd neu streicio bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn ystyried yr effaith ac yn cytuno ar 'gamau gweithredu' ar gyfer y brifysgol gyfan neu, lle bo'n briodol, campws neu gyfadran benodol. Bydd hyn yn cael ei egluro i fyfyrwyr drwy sianeli priodol.

6.2 Os oes gennych amgylchiadau penodol sy'n golygu eich bod yn elwa llai nag eraill o'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai), gallwch ddefnyddio'r Weithdrefn hon i wneud hawliad amgylchiadau esgusodol unigolyn.

## ADRAN B7: FFIT I SEFYLL

7.1 Wrth gyflwyno gwaith neu gyflwyno eich hun ar gyfer asesiad, rydych yn datgan eich bod yn ffit i sefyll yr asesiad. Ni allwch honni wedyn bod eich perfformiad yn yr asesiad hwnnw wedi'i effeithio gan amgylchiadau neu salwch a oedd yn bodoli eisoes, ac eithrio lle mae amodau neu ddigwyddiadau ychwanegol yn codi. Er enghraifft, pan fydd myfyriwr yn mynd yn sâl yn ystod arholiad ac yn methu â pharhau i sefyll yr arholiad neu lle amharwyd ar ei farn ac nad oedd yn gallu gwneud penderfyniad rhesymegol ynghylch bod yn ffit i sefyll. Os felly, dylech gyflwyno hawliad yn gofyn am ddileu'r datganiad ffit i sefyll.

7.2 Dylid cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol i ddileu eich datganiad ffit i sefyll, ynghyd â thystiolaeth ategol, cyn gynted â phosibl ac yn unol â'r terfynau amser a amlinellir yn adran B2. Mewn enghraifft o

[8] Neu gyfatebol os yn astudio mewn coleg partner Prifysgol De Cymru

[9] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

arholiad, os yw hwn wedi'i oruchwylio'n ffurfiol, dylid cyflwyno adroddiad gan oruchwylydd yr arholiad o'r sefyllfa a gofnodwyd ar y pryd gyda'r hawliad.

7.3 Ar gyfer anawsterau technegol yn ystod asesiadau, dilynwch y canllawiau ar gyfer materion sy'n ymwneud â TG drwy'r Parth Cynghori[10] gan fod y rhain yn sicrhau bod anawsterau'n cael eu cofnodi a'u hadrodd, gan osgoi'r angen am hawliadau amgylchiadau esgusodol ychwanegol. Os ydych yn ansicr, cysylltwch â'r Parth Cynghori.

7.4 Pan fyddwch wedi cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol ac yn aros am y canlyniad, ni fydd unrhyw gyflwyniad asesu[11] a wnewch yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei ddosbarthu fel cyflwyniad ffurfiol neu ddatganiad ffit i sefyll os caiff yr hawliad ei gymeradwyo wedyn. Lle cymeradwyir yr hawliad, cewch gyfle i ailgyflwyno'r asesiad heb gosb oni bai eich bod wedi derbyn marc neu adborth, ac os felly caniateir i chi wneud yr asesiad yn y cyfnod asesu nesaf fel yr un cynnig a heb gosb bellach.[12]

**ADRAN B8: YMDRIN Â CHYFLWYNIADAU AR GYFER AMGYLCHIADAU ESGUSODOL**

**Hawliadau Syml**

8.1 Pan fo hawliad am amgylchiadau esgusodol yn syml, bydd enwebai'r Weinyddiaeth Academaidd yn adolygu'r hawliad ac yn gwneud penderfyniad yn unol â chanllawiau cyhoeddedig.

8.2 Bydd sampl o bob hawliad yn cael ei adolygu bob tymor gan y Cofrestrydd Academaidd i sicrhau cysondeb ar draws y Brifysgol.

**Hawliadau cymhleth**

8.3 Bydd hawliadau'n cael eu cyfeirio at y Panel Amgylchiadau Esgusodol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd yr hawliad neu os yw'r hawliad yn gymhleth neu os yw'n hawliad cyntaf gan fyfyriwr ag anabledd/cyflwr hirsefydlog lle nad oes Cynllun Cymorth Unigol (ISP) yn ei le.

8.4 Bydd achosion cymhleth yn cael eu hystyried gan Banel Amgylchiadau Esgusodol drwy ohebiaeth yn ôl yr angen

8.5 Mae cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Panel Amgylchiadau Esgusodol fel y'u nodir yn adran B9. Pan weithredir gan y Cadeirydd, bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Panel Amgylchiadau Esgusodol.

**Monitro a chyfeirio at weithdrefnau eraill**

8.6 Mae'n bosibl y bydd angen i'r Panel Gweinyddiaeth Academaidd/Amgylchiadau Esgusodol ystyried ceisiadau blaenorol am amgylchiadau esgusodol gennych wrth ystyried unrhyw geisiadau dilynol. Lle bo'r dystiolaeth feddygol a ddarperir, neu amlder yr hawliadau yn codi pryderon am eich gallu i astudio, gall y Panel gyfeirio eich achos i'w ystyried o dan y Weithdrefn Cymorth i Astudio

8.7 Pan fyddwch wedi cyflwyno mwy na dau hawliad gan ddefnyddio hunan-ardystio, bydd y rhain yn arwain at adolygu eich sefyllfa ac efallai y bydd gweithredu pellach yn cael ei awgrymu/yn ofynnol.

---

[10] https://advice.southwales.ac.uk/a2z/coronovirus-advice-and-guidance/study-information/

[11] Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i arholiadau, profion yn y dosbarth, cyflwyniadau, gwerthusiadau ymarfer clinigol, profion ymarferol, asesiadau gwaith cwrs a phrosiectau ond nid i asesiadau perfformiad llwyfan

[12] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

**ADRAN B9: CYFANSODDIAD A CHYLCH GORCHWYL BWRDD/PANEL AMGYLCHIADAU ESGUSODOL**

9.1 Bydd cyfansoddiad y Panel Amgylchiadau Esgusodol fel arfer fel a ganlyn:

- Pedwar aelod o staff academaidd ar draws y sefydliad (2 o'r adran Gerddoriaeth a 2 o'r adran Ddrama), wedi'u henwebu gan Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Coleg
- Bydd ceisiadau syml yn cael eu hystyried gan y Rheolwr Academaidd ar gyfer Cerddoriaeth neu Ddrama fel y bo'n briodol

9.2 Wrth ystyried ceisiadau cyntaf gan fyfyrwyr ag anabledd/cyflwr hirsefydlog lle nad oes Cynllun Cymorth Unigol (ISP) yn ei le, mae'r Panel yn cadw'r hawl i ofyn i weithiwr meddygol proffesiynol fynychu'r cyfarfod mewn rôl cynghorydd.

Mae gan y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yr awdurdod i gymeradwyo diwygiadau i gyfansoddiad y panel os oes angen.

Ni chaniateir i unrhyw aelod o staff academaidd ar y Panel sydd wedi bod yn addysgu, goruchwylio neu sydd â chysylltiadau agos â myfyriwr sydd wedi cyflwyno hawliad oherwydd amgylchiadau esgusodol gymryd rhan yn y penderfyniad ar yr hawliad.

9.3 Cylch gorchwyl y Paneli Amgylchiadau Esgusodol yw:

a) Ystyried hawliadau amgylchiadau esgusodol yn unol â'r Rheoliadau Amgylchiadau Esgusodol.

b) Sicrhau bod yr holl dystiolaeth a ddarperir i gefnogi hawliadau yn cael ei hystyried yn ofalus.

c) Penderfynu a ddylid derbyn hawliad ai peidio a chanlyniad priodol unrhyw hawliad a dderbynnir.

d) Sicrhau dull cyson a rhesymol mewn perthynas â phob hawliad.

e) Adrodd ar benderfyniadau wrth y byrddau asesu priodol.

f) Cyfeirio myfyrwyr, fel y bo'n briodol, at wasanaethau neu reoliadau eraill.

9.4 Rhaid i Fyrddau Asesu dderbyn penderfyniad y Panel Amgylchiadau Esgusodol.

**ADRAN B10: CANLYNIADAU HAWLIADAU AM AMGYLCHIADAU ESGUSODOL**

10.1 Bydd canlyniad eich hawliad amgylchiadau esgusodol yn cael ei ddarparu i chi ddim hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

10.2 Byddwch yn cael esboniad clir o'r rheswm dros y canlyniad. Bydd y Weinyddiaeth Academaidd yn cofnodi manylion y materion a ystyriwyd yn ogystal â'r rheswm dros y penderfyniad a wneir.

10.3 Nid yw'n bosibl rhoi marciau ychwanegol i unrhyw fyfyriwr unigol am unrhyw asesiad o ganlyniad i hawliad am amgylchiadau esgusodol.

10.4 Canlyniadau posibl hawliad am amgylchiadau esgusodol yw:

- gall yr hawliad gael ei wrthod;
- gellir gohirio'r hawliad, tra'n aros am gais am wybodaeth/tystiolaeth ychwanegol;

- gellir caniatáu estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r asesiad. Yn yr achos hwn ni ellir hefyd defnyddio'r rheoliad cyflwyno'n hwyr pum niwrnod (sy'n eich galluogi i gael yr asesiad wedi'i farcio ond wedi'i gapio ar y marc llwyddo);
- efallai y caniateir i chi wneud yr asesiad/arholiad yn y cyfnod asesu nesaf fel yr un ymgais a heb gosb bellach;[13]
- bydd y Bwrdd Asesu Pwnc yn ystyried proffil graddau'r asesiad/modiwl yn achos hawliad esgusodol grŵp/carfan.

10.5 Gall rheoliadau fisa Haen 4 neu reoliadau llwybrau myfyrwyr gyfyngu ar nifer y ceisiadau y gellir eu cynnig i fyfyrwyr rhyngwladol neu o'r tu allan i'r UE sydd ar fisa llwybr myfyriwr Haen 4 neu lwybr myfyriwr a gallant gyfyngu ar hyd cyffredinol yr amser y cânt astudio yn y DU. Os ydych ar Haen 4 neu fisa llwybr myfyriwr fe'ch cynghorir i ofyn am gyngor gan y Cofrestrydd Academaidd ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar eich statws mewnfudo.

**ADRAN B11: TORIAD I ASTUDIAETHAU**

11.1 Os yw'r amgylchiadau esgusodol mor ddifrifol fel nad ydych yn gallu parhau i astudio am gyfnod, gallwch wneud cais Toriad i astudiaethau am weddill y cyfnod astudio, ar yr amod bod posibilrwydd y byddwch yn gallu ailddechrau astudio ar yr un cwrs ar y dyddiad cofrestru ar gyfer y cyfnod astudio nesaf.

11.2 Os dymunwch wneud cais am doriad i astudiaethau, rhaid i chi drafod hyn gyda'r arweinydd/arweinwyr cwrs priodol a llenwi'r ffurflen 'Gohirio Astudiaethau Dros Dro' sydd ar gael ar-lein.

11.3 Nid yw toriad i astudiaethau yn hawl myfyriwr a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan arweinydd/arweinwyr eich cwrs (a fydd yn rhoi cyngor ar ymarferoldeb o ran cyflwyniad y cwrs) ac enwebai Rheolwr y Parth Cynghori/Panel Amgylchiadau Esgusodol. Efallai y cewch eich cyfeirio at y Tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr/Uned Refeniw a fydd yn gallu cynnig cymorth a chyngor ar y goblygiadau ariannol. Yn ogystal, efallai yr hoffech drafod eich opsiynau gyda'r Tîm Cyngor Dilyniant.

11.4 Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o amgylchiadau a allai fod yn rhesymau derbyniol dros doriad i astudiaethau yn ystod y cyfnod astudio presennol:

- amgylchiadau meddygol, damwain, neu anabledd (er enghraifft, salwch gwanychol; salwch dros gyfnod hir o amser, h.y. pedair wythnos neu fwy; torri braich neu goes sy'n cyfyngu ar symudedd neu'r gallu i ysgrifennu am gyfnod hir; problemau iechyd meddwl; triniaeth ysbyty helaeth; beichiogrwydd neu lawdriniaeth fawr);
- marwolaeth neu salwch difrifol perthynas agos neu ffrind, gan atal myfyriwr rhag gallu parhau ar ei gwrs;
- genedigaeth;
- methdaliad neu broblemau ariannol sylweddol;
- problemau personol/teuluol;
- cymryd rhan mewn achos cyfreithiol hirfaith;
- cyflogaeth, e.e. cynnydd annisgwyl yn y llwyth gwaith.

11.5 Nid yw marciau gwael a/neu fethiant i ymgysylltu â'r cwrs yn rhesymau derbyniol dros doriad i astudiaethau.

11.6 Dylai pob cais am doriad i astudiaethau yn ystod y cyfnod astudio presennol gael ei gefnogi gan dystiolaeth ysgrifenedig o ffynhonnell annibynnol, h.y. trydydd parti priodol a all gadarnhau'r amgylchiadau o safle o awdurdod. Eich cyfrifoldeb chi yw ceisio a darparu'r dystiolaeth hon. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o dystiolaeth dderbyniol:

[13] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

- tystysgrif feddygol, yn ddelfrydol gyda syniad o gyflymder adferiad;
- datganiad gan arweinydd crefyddol neu gymunedol;
- dogfen swyddogol, er enghraifft tystysgrif geni neu farwolaeth;
- llythyr gan gyfreithiwr;
- gwŷs i fynychu'r llys;
- adroddiad gan swyddog heddlu;
- hysbysiad methdaliad;
- llythyr gan gyflogwr;
- contract gwaith (ar gyfer myfyrwyr hunangyflogedig);
- llythyr/tystysgrif feddygol gan y Gwasanaethau Myfyrwyr.

11.7 Nid yw llythyrau gan aelodau teulu, ffrindiau, tiwtoriaid neu gyd-fyfyrwyr fel arfer yn dderbyniol.

11.8 Y cyfnod hiraf ar gyfer toriad i astudiaethau yw un flwyddyn academaidd; ni chaniateir ceisiadau am gyfnod amhenodol. Rhaid i geisiadau am doriad i astudiaethau am flwyddyn academaidd gyfan ddod i law cyn y dyddiad cofrestru ar gyfer y flwyddyn honno[14]. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir adnewyddu cymeradwyaeth ar gyfer toriad i astudiaethau.

11.9 Fe'ch hysbysir o'r dyddiad dychwelyd y cytunwyd arno o doriad i astudiaethau ar yr adeg y caiff ei gymeradwyo. Ar ôl i chi ddychwelyd, byddwch yn cael eich llywodraethu gan y rheoliadau cyfredol, ac nid y rhai oedd mewn grym ar adeg y toriad i astudiaethau. Bydd methu â dychwelyd ar yr amser a gytunwyd yn arwain at dynnu'n cynnig yn ôl.

11.10 Bydd enwebai'r Cofrestrydd Academaidd, gyda chyngor gan yr aelod staff academaidd perthnasol, yn penderfynu a fyddwch yn:

- cadw'r marciau a enillwyd ym mhob modiwl yn y sesiwn academaidd hyd at y dyddiad y cytunwyd ar y toriad i astudiaethau; gall hyn gynnwys marciau ar gyfer asesiadau unigol;
- fforffedu'r marciau a enillwyd ym mhob modiwl yn y sesiwn academaidd hyd yn oed os gallai'r marciau fod wedi arwain at basio modiwlau.

Ni chaniateir unrhyw opsiwn arall, megis cadw rhai marciau ond nid pob un.

Bydd yr aelod staff academaidd perthnasol yn trafod eich amgylchiadau unigol ac effaith y penderfyniad gyda chi. Os bydd anghytundeb rhyngoch chi a'r aelod staff academaidd, bydd penderfyniad yr aelod staff academaidd yn derfynol.

11.11 Fel arfer ni fydd ceisiadau a dderbynnir o fewn chwe wythnos cyn dechrau gwaith y byrddau asesu yn cael eu hystyried; dylech wedyn wneud cais am amgylchiadau esgusodol yn lle hynny.

11.12 Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE sy'n astudio ar Haen 4 neu fisa llwybr myfyriwr, bydd nawdd yn dod i ben. Rhaid i chi adael y DU ac ail-ymgeisio am fisa priodol cyn ail-gydio yn yr astudiaethau.

11.13 Mewn amgylchiadau lle mae absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod gwaith yn anochel, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i chi gymryd toriad i astudiaethau.

**ADRAN B12: CEISIADAU I ADOLYGU CANLYNIAD HAWLIAD AMGYLCHIADAU ESGUSODOL NEU DORIAD I ASTUDIAETHAU**

[14] Mae dyddiad cofrestru ar gyfer y flwyddyn honno yn cyfeirio at y dyddiad yr oedd disgwyl i fyfyrwyr gofrestru.

12.1 Mae gennych hawl i gyflwyno cais am adolygiad o ganlyniad hawliad amgylchiadau esgusodol neu doriad i astudiaethau ar y seiliau canlynol.

a) Mae gennych dystiolaeth y bu gwall gweithdrefnol wrth ystyried yr hawliad amgylchiadau esgusodol/toriad i astudiaethau ac mae hyn wedi eich rhoi dan anfantais sylweddol.

b) Mae gennych dystiolaeth newydd a pherthnasol, nad oedd ar gael **am reswm da** ar yr adeg y cyflwynwyd yr hawliad amgylchiadau esgusodol/toriad i astudiaethau cychwynnol. *(Sylwer: Ni fydd rhesymau personol, teuluol neu ddiwylliannol sensitif yn cael eu derbyn fel rheswm da gan y dylent fod wedi cael eu dwyn i sylw'r Brifysgol ar yr adeg y cyflwynwyd y cais cyntaf)*.

c) Gallwch ddangos bod y canlyniad yn afresymol.

d) Gallwch ddangos bod canfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y broses.

Ni ddylai'r wybodaeth hon fod wedi bod yn hygyrch nac yn hysbys i chi pan gyflwynwyd yr hawliad amgylchiadau esgusodol/toriad i astudiaethau cychwynnol. Ni fydd gwybodaeth a oedd ar gael ac na ddarparwyd gyda'r hawliad amgylchiadau esgusodol/toriad i astudiaethau yn cael ei hystyried yn sail ddilys ar gyfer cais am adolygiad.

12.2 Dim ond ar ôl ystyried yr hawliad amgylchiadau esgusodol /toriad i astudiaethau cychwynnol y mae gennych hawl i gyflwyno cais am adolygiad.

12.3 Ni ellir cyflwyno unrhyw faterion newydd fel rhan o'r cais am adolygiad.

12.4 Rhaid cyflwyno ceisiadau am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am ganlyniad yr hawliad amgylchiadau esgusodol /toriad i astudiaethau cychwynnol drwy e-bost at y Rheolwr Academaidd ar gyfer Cerddoriaeth neu Ddrama fel y bo'n briodol. Rhaid i'r cais hwn gynnwys unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r cais am adolygiad.

12.5 Bydd ceisiadau am adolygiad yn cael eu hystyried gan y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) i benderfynu a oes achos dros adolygiad, o fewn pum diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais.

12.6 Os bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai), ar ôl ystyried y cais am adolygiad, yn dod i'r casgliad:

a) nad yw'n bodloni'r seiliau uchod a nodir yn adran 11.1;

b) ei fod wedi'i gyflwyno y tu allan i'r terfyn amser o 10 diwrnod gwaith;

c) nad yw'n cynnwys y dystiolaeth briodol.

bydd y cais am adolygiad yn cael ei wrthod a bydd y penderfyniad gwreiddiol yn sefyll.

12.7 Os bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu enwebai) yn penderfynu bod y cais am adolygiad yn bodloni un neu fwy o'r seiliau, gellir cymryd y camau canlynol:

a) os yw'r achos yn un syml, caiff ei ystyried gan y Cofrestrydd Cyswllt (Gwaith Achos Myfyrwyr) (neu enwebai); bydd ymateb yn cael ei ddarparu i chi o fewn 10 diwrnod gwaith;

b) os yw'r achos yn gymhleth, caiff ei gyfeirio at y Panel Amgylchiadau Esgusodol. Gellir ailgyfansoddi'r Panel Amgylchiadau Esgusodol os yw'n briodol; os oes angen cyfarfod, bydd hyn yn digwydd o fewn 10 diwrnod gwaith i atgyfeirio eich achos. Rhoddir ymateb i chi o fewn pum diwrnod gwaith i benderfyniad y Panel.

**ADRAN B13: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA) AR GYFER ADDYSG UWCH**

13.1 Os ydych yn anhapus â chanlyniad y Weithdrefn hon gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).

13.2 Mae manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun i'w cael yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael rhagor o wybodaeth a chyngor gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

**Atodiad 1**

**Tystiolaeth ar gyfer amgylchiadau esgusodol a cheisiadau am adolygiad a gyflwynwyd o dan sail b)**

| Mae'r tabl hwn yn rhoi syniad i chi o'r mathau o dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu er mwyn cefnogi hawliad amgylchiadau esgusodol. Dylech ddarparu'r dystiolaeth fwyaf perthnasol i gefnogi'ch hawliad; dylid ceisio cyngor gan y Parth Cynghori. | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llythyr gan weithiwr meddygol neu gwnselydd proffesiynol** | **Llythyr / tystiolaeth gan weithiwr proffesiynol annibynnol** | **Tystysgrif marwolaeth** | **Ysgrif goffa/ trefn gwasanaeth** | **Adroddiad newyddion / cyfryngau** | **Adroddiad tyst swyddogol /adroddiad heddlu sy'n rhoi gwybodaeth yn ymwneud â'r drosedd** | **Llythyr gan fanc/llythyrau dyled** |
| | | | | | | | |
| **Salwch/damwain difrifol** | ✓ | ✓ | | | | | |
| **Afiechyd difrifol neu brofedigaeth person arwyddocaol** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| **Cyflwr iechyd parhaus yn gwaethygu'n sylweddol** | ✓ | ✓ | | | | | |
| **Salwch cysylltiedig â beichiogrwydd neu eni plentyn** | ✓ | ✓ | | | | | |
| **Amgylchiadau personol/teuluol andwyol sylweddol, gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu annisgwyl am aelod o'r teulu neu ddibynnydd** | ✓ | ✓ | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Problemau ariannol sylweddol** | ✓ | ✓ | | | | | ✓ |
| **Dioddefwr, neu dyst i drosedd, sydd wedi cael effaith sylweddol** | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | |